# Y Pwyllgor Busnes

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Presiding Officer's office, 4th floor – Tŷ Hywel** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>National Assembly for Wales |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 30 Medi 2014** | |
| Amser: | **08.30 – 08.42** | |

## Cofnodion: MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Dirprwy Lywydd.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am y newidiadau i Fusnes y Llywodraeth ddydd Mawrth.

Bydd y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu’r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 8 Hydref 2014 –**

- Cynnig i ddiddymu Rheoliadau Addysg (Sefydliadau Ewropeaidd) a Chymorth i Fyfyrwyr (Cymru) (Dirymu) 2014 (30 munud)

**Dydd Mercher 22 Hydref 2014 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei Ymchwiliad i Gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Lynne Neagle (Torfaen) (30 munud)

## 4 Y Rheolau Sefydlog

4.1 Adolygiad o Reol Sefydlog 30A - Cydsyniad mewn perthynas ag Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion y DU

Ym mis Hydref 2013, cytunodd y Cynulliad i ddiwygio Rheol Sefydlog 30A ar gydsyniad deddfwriaethol i offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion y DU. Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2013, cytunodd y Pwyllgor Busnes i adolygu'r broses ymhen blwyddyn. Cytunodd y Rheolwyr Busnes nad oes angen adolygu Rheol Sefydlog 30A ymhellach ar hyn o bryd.

**UNRHYW FATER ARALL**

Nododd y Llywydd bod posibilrwydd y bydd gweithredu diwydiannol ar 15 Hydref. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod ail-drefnu busnes yn y cyfarfod nesaf a phenderfynu ar sut i ymateb bryd hynny.

Holodd Elin Jones am gyfrifoldebau gweinidogol y Dirprwy Weinidog Iechyd fel y nodwyd yn nogfen Cyfrifoldebau Gweinidogol y Llywodraeth. Cytunodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i godi'r mater gyda'r Prif Weinidog ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.